# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 91(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2018-19

(90 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o Chwaraeon Cymru

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Adolygiad Chwaraeon Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol

(30 munud)

**Dogfen Ategol**

Rhaglen dileu TB mewn Gwartheg

## 6 Cynnig i dderbyn y penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(30 munud)

**NDM6517 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

'Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)'

**Dogfen Ategol**

Adroddiad atodol y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl: Y Papur Gwyn ar Gynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

(60 munud)

**NDM6516 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer Bil y Gymraeg a gyhoeddwyd fel testun ymgynghoriad ar 9 Awst 2017.

'Y Papur Gwyn ar Gynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi amrywiaeth y safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad cryno o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth, 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg - Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion'

**Gwelliant 2.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cylch gwaith cul Papur Gwyn Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 3.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd unrhyw wanio o ran hawliau cyfreithiol presennol siaradwyr Cymraeg.

**Gwelliant 4.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwaith rheoleiddio a gwaith hyrwyddo mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu cwblhau gan ddau gorff gwahanol.

**Gwelliant 5.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu awydd Llywodraeth Cymru i leihau'r lefel o fiwrocratiaeth sydd yn bodoli yn system safonau'r iaith Gymraeg.

**Gwelliant 6.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud ymlaen gyda'r safonau iaith ar gyfer iechyd a chymdeithasau tai ar fyrder, ac i gyhoeddi amserlen ar gyfer cyhoeddi safonau i'r sectorau ynni, cwmnïau dŵr, telathrebu, cwmnïau trenau a bysus.

**Gwelliant 7.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y safonau iaith i weddill y sector breifat.

**Gwelliant 8.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu yn glir ei rhesymeg dros gynnig cael gwared ar rôl Comisiynydd y Gymraeg.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Hydref 2017